





## Polisi Camddefnyddio ac Atal Sylweddau (Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig)

*\*At ddiben y polisi hwn, mae'r term 'ysgol' yn cyfeirio at ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion arbennig ac unedau atgyfeirio disgyblion (PRU).*

Enw'r ysgol	Ysgol Brynhyfryd
Cyfeiriad a chod post	Ffordd yr Wyddgrug Rhuthun LL15 1EG
Rhif ffôn	01824 703933
Cyfeiriad e-bost ar gyfer y polisi hwn	ysgol.brynhyfryd@sirddinbych.gov.uk
Dolen gwefan i'r polisi hwn	

**I'w gwblhau gan yr ysgol:**

Enw'r polisi	Polisi Camddefnyddio ac Atal Sylweddau (Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig)
Rhif fersiwn y polisi	V3 01/11/17
Dyddiad y cymeradwywyd y polisi yn ffurfiol gan y Corff llywodraethol	Mawrth 2018
Dyddiad y daw'r polisi i rym	Mawrth 2018
Dyddiad adolygu	Mawrth 2020
Enw'r aelod staff sy'n gyfrifol am y polisi hwn	C Ranson
Llofnodwyd (Pennaeth)	XX 
Llofnodwyd (Cadeirydd y corff llywodraethol)	
Mae gwybodaeth am y polisi hwn ar gael i rieni/gofalwyr	Polisi ar wefan yr Ysgol ac ar gael o'r Ysgol

**I'w gwblhau gan wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych:**

Polisi gwreiddiol wedi ei ddatblygu gan	Ceri Ellis Paula Roberts
Dyddiad y'i mabwysiadwyd gan Wasanaethau Addysg a Phlant JMT	
Dyddiad y rhoddwyd y polisi gwreiddiol i ysgolion Sir Ddinbych	Mawrth 2011
Rhif fersiwn a dyddiad	Fersiwn 3 01/11/2017
Fersiwn wedi ei ddatblygu gan	James Brown Paula Roberts
Dyddiad adolygu	01/11/2019
Dyddiad cwblhau asesiad o lesiant	01/11/2017

## 1. Nodau ac amcanion y polisi

Mae ein hysgol yn amcanu at:

- Ddarparu cwricwlwm camddefnyddio sylweddau eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol pob disgybl, a'u paratoi ar gyfer y cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau a ddaw yn eu bywydau fel oedolion. Rydym yn amcanu at fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau tra'n galluogi disgyblion i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau.
- Darparu dull safonol o reoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig a sylweddau gan roi sylw dyledus i'n rhwymedigaethau cyfreithiol; gwarchod llesiant cymuned yr ysgol gyfan a rho negeseuon priodol i staff, disgyblion a rhieni/gofalwyr gan sicrhau yr ymdrinnir a phob digwyddiad yn gyson.
- Darparu amgylchedd di-fwg diogel (yn cynnwys e-sigarennau) i bawb.

## 2. Cysylltiadau â chanllawiau cenedlaethol a pholisïau eraill ysgolion

Datblygwyd y polisi hwn gan gyfeirio at ddogfennau canlynol Llywodraeth Cymru:

- Cydweithio i Leihau Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018
- Canllawiau Addysg Camddefnyddio Sylweddau (2013)
- Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (2008)
- Y Cwricwlwm Gwyddoniaeth (2008)
- Rheoliadau Safleoedd Di-fwg etc. (Cymru) (2007)
- Polisi Bif Troseddu Ysgolion - Protocol ar gyfer Heddlu sy'n Cynorthwyo Ysgolion gyda Digwyddiadau o Droseddu ac Anrhefn. Dogfen Gyfeirio ar gyfer Staff Ysgolion (2012)
- Canllawiau Cydweithio rhwng Ysgolion a Swyddogion Heddlu Cymunedol yr Ysgol (SCPO). Rheoli Digwyddiadau Ymddygiadol mewn Ysgolion.
- Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan (2008)
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Ni ddylid ystyried y polisi hwn ar ei ben ei hun, oherwydd mae ganddo gysylltiadau amlwg â'r polisïau ysgol canlynol:

- Ymddygiad
- Rheoli Anghenion Gofal Iechyd
- Gwrth-fwllo
- Iechyd a Diogelwch
- Ymweliadau Ysgolion
- Diogelu
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABaCh)
- Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyrraeth Gorfforol (Sir Ddinbych)
- Polisïau AD Sir Ddinbych (staff)
- Polisi Dim Ysmygu Sir Ddinbych (staff) (2015)
- Polisi Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau Sir Ddinbych (staff) (2016)

### 3. Diffiniadau a therminoleg

Y diffiniad safonol o gyffur neu sylwedd a ddefnyddir ar gyfer y polisi hwn yw: 'Mae sylwedd yn rywbeth mae pobl yn ei gymryd er mwyn newid y ffordd maent yn teimlo, meddwl neu ymddwyn' (Y Cenhedloedd Unedig). At ddiben y polisi hwn mae hynny yn cynnwys ystod eang o sylweddau, yn rhai cyfreithlon ac anghyfreithlon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tybaco
- Sigarennau electronig
- Alcohol
- Meddyginiaethau dros y cownter
- Meddyginiaethau a ragnodir yn unig megis steroid anabolig a bensodiasepinau
- Sylweddau anghyfreithlon megis heroin, cocên, amffetaminau, LSD, canabis, madarch hud
- Sylweddau ansefydlog megis tanwydd erosol, bwtanau, toddyddion a gludion
- Sylweddau seicoactif newydd (a elwir hefyd yn anterth cyfreithlon)
- Steroidau
- Diodydd egni

O dan Ddeddf camddefnyddio Cyffuriau 1971 mae'r canlynol yn droseddau:

- Meddiannu cyffur a reolir yn anghyfreithlon
- Meddiannu cyffur a reolir gyda'r bwriad o'i gyflenwi
- Cyflenwi neu gynnig cyflenwi cyffur a reolir (hyd yn oed pan na chodir tâl am y cyffur)
- Caniatáu i safle yr ydych yn ei feddiannu neu'n ei reoli i gael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon at ddiben cynhyrchu neu gyflenwi cyffuriau a reolir

### 4. Eithriadau i'r polisi

Er nad oes lle i gyffuriau yn ein hysgolion, mae yna rai amgylchiadau pan ganiateir i rai sylweddau fod yn ein hysgol yn gyfreithlon:

- **Meddyginiaethau:** Caiff meddyginiaethau a ragnodir neu a geir dros y cownter eu caniatáu dim ond pan awdurdodir hynny yn ysgrifenedig i'n hysgol gan riant/gofalwr, a hynny at ddefnydd y disgybl yn unig. Mae gennym *bolisi rheoli anghenion gofal iechyd disgyblion*. Os bydd disgyblion yn cyflenwi cyffuriau a ragnodir i eraill yn yr ysgol, maent yn gweithredu'n anghyfreithlon, ac felly bydd y polisi hwn yn gymwys.
- **Sylweddau ansefydlog** Y rhai a ddefnyddir gan adrannau penodol yn ein hysgol at ddibenion addysgu
- **Alcohol:** o dan Deddf Trwyddedu 1964 mae'n drosedd gwerthu alcohol heb drwydded. Os oes gennym alcohol ar safle'r ysgol, rydym yn ymwybodol y gallwn fod yn ddarostyngedig i ofynion trwyddedu a byddwn yn cysylltu ag adran drwyddedu Sir Ddinbych er mwyn penderfynu a oes angen trwydded neu beidio (01824 706342)

### 5. Sail resymegol

Mae camddefnyddio sylweddau yn cynnwys tybaco, alcohol a chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon yn bryder mawr o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru, ac mae'n gysylltiedig â chanlyniadau iechyd a gall yr olaf fod yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol. Rydym yn cydnabod y gall rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau o ansawdd da ac sy'n seiliedig ar sgiliau ac sy'n oedran briodol helpu disgyblion i wneud penderfyniadau doeth am sylweddau a ddefnyddir a/neu a gamddefnyddir yn ein cymdeithas. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am ddiogelwch cymuned ein hysgol a phwysigrwydd cael dull cyson o ddelio â digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau. Rydym yn cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Iach ac yn cydnabod gwerth defnyddio dull ysgol gyfan ynglŷn â'r mater yma sy'n cynnwys arweinyddiaeth, cwricwlwm, amgylchedd yr ysgol, ethos a chysylltiadau â'r gymuned.

## 6. Datblygu'r polisi

Ym Mawrth 2011, bu i bob ysgol uwchradd ac ysgol arbennig yn Sir Ddinbych gytuno ar Bolisi Camddefnyddio Sylweddau safonol. Crëwyd hwnnw gan weithgor ac fe'i cymeradwywyd ar gyfer ei weithredu gan bob corff llywodraethu. Nod y polisi oedd creu dull safonol o ddelio â defnyddion a chamddefnyddio sylweddau ym mhob ysgol.

Yng Ngorffennaf 2013, bu i Uwch Dîm Arwain Cynhwysiant Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych gytuno ar ddull safonedig wedi ei ddiweddarau, ac roedd hynny ar yr un pryd ag y lansiwyd canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru. Yn 2017 adolygwyd a diweddarwyd y polisi gan weithgor ac ymgynghorwyd â phartneriaid:

- Ysgolion
- Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad
- Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc (YPSMS)
- Cynllun Ysgolion Iach
- Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol mewn Addysg
- Adnoddau Dynol

Yna bu i'r ysgolion rannu'r polisi â staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni yn eu ffyrdd eu hunain.

## 7. Cyfrifoldebau allweddol

Gweithredu polisi sylweddau a rheoli digwyddiadau neu weithdrefnau disgyblu	G Parry C Ranson
Dolen wedi ei henwi i'r YPSMS (ar gyfer atgyfeirio etc.)	C Ranson S Boschi
Addysg camddefnyddio sylweddau	C Ranson
Cydlynnydd Diogelu/Amddiffyn Plant	C Ranson

Er mwyn cydymffurfio â'r polisi hwn, mae G Parry, **Pennaeth** a C Ranson, **Pennaeth Cynorthwyol** yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y llywodraethwyr, staff, rhieni/gofalwyr a'r disgyblion yn deall y polisi;
- Cynnal gwyliaeth ar safle a thiroedd yr ysgol drwy'r timau dyletswydd;
- Sefydlu systemau ar gyfer goruchwyllo a chydlynu digwyddiadau camddefnyddio sylweddau;
- Cadw cofnod o'r holl ddigwyddiadau o gamddefnyddi sylweddau;
- Dilyn unrhyw gyngor gan y SCPO a chadw mewn cysylltiad agos â nhw er mwyn sicrhau y dilynir eu polisiâu ynghylch delio â digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau yn anghyfreithlon;
- Cydlynu atgyfeiriadau at yr YPSMS;
- Cyfarfod ag elod cyswllt staff YPSMS yn rheolaidd.

Mae'r **Pennaeth Cynorthwyol (Bugeiliol)** yn gyfrifol am:

- Ffurio'r rhaglen astudiaeth a chysylltu â chydweithwyr er mwyn sicrhau darpariaeth ledled yr ysgol;
- Mynd i'r afael ag anghenion DPP y staff sy'n darparu addysg camddefnyddio sylweddau;
- Cysylltu ag asiantaethau allanol a chydlynu eu gwaith mewn perthynas ag addysg camddefnyddio sylweddau;
- Monitro a gwerthuso'r rhaglen astudiaeth;
- Ymgynghori â disgyblion ynghylch beth maent angen neu eisiau ei ddysgu.

## 8. Ym mhle mae'r polisi yn gymwys?

NI FYDD camddefnyddio sylweddau (yn cynnwys tybaco ac alcohol) yn cael ei ganiatáu ar unrhyw ran o safle a thiroedd yr ysgol, trafnidiaeth ysgol na theithiau ysgol. Er enghraifft: ceginau, derbynfa, ystafell athrawon, cae'r ysgol, maes parcio, gerddi, caeau, llwybrau gyrru etc.

### 8.1 Ysmygu ar safle a thiroedd yr ysgol

- Ni fydd ysmygu yn cael ei ganiatáu yn yr ysgol nac ar ei thiroedd nac yn agos iddi, pryd y gall ysmygu effeithio ar eraill neu greu delwedd negyddol o'r Cyngor/Ysgol.
- Bydd arwydd dim ysmygu, fydd yn cydymffurfio â Rheoliadau Safleoedd Di-fwg etc. (Cymru) 2007 yn cael eu harddangos mewn man amlwg ger pob mynedfa i adeiladau'r ysgol.
- Byddwn yn defnyddio arwyddion eraill o gwmpas yr ysgol (e.e. Giatiau, tiroedd yr ysgol) er mwyn atgoffa pobl bod ein hysgol yn ddi-fwg ac na cheir defnyddio e-sigarennau.

### 8.2 Ysmygu a cherbydau

- Nid yw ysmygu yn cael ei ganataw yn unrhyw un o gerbydau'r ysgol nac mewn unrhyw gerbyd masnachol sy'n cludo disgyblion ar deithiau ysgol yn unol â Rheoliadau Safleoedd Di-fwg etc. (Cymru) 2007.

- Gofynnir i'n staff beidio ag ysmegu yn eu cerbydau eu hunain pan fyddant yn cludo rhywun arall ar ran yr ysgol.
- Bydd rhieni/gofalwyr sy'n cludo disgyblion i ac o'r ysgol yn cael eu hatgoffa o bolisi'r ysgol a gofynnir iddynt gydymffurfio â hynny.

## 9. Pryd fydd y polisi yma yn gymwys?

Mae'r polisi yma yn gymwys i:

- Safle'r ysgol gyfan BOB amser.
- Gweithgareddau allgwricwlaidd ar safle'r ysgol ac oddi arno.
- Cyfarfodydd a digwyddiadau mae cyflogeion a disgyblion yn ysgol yn eu mynychu fel rhan o'u gwaith a/neu rieni/gofalwyr ac ymwelwyr i gyfarfodydd/digwyddiadau o'r fath. Er enghraifft, diwrnod chwaraeon yr ysgol, noson rieni etc.
- Ymweliadau addysgol yr ysgol yn cynnwys gemau chwaraeon oddi cartref, darpariaeth oddi ar y safle a phrofiad gwaith.
- Trafnidiaeth ysgol.
- Bydd teithio i ac o'r ysgol ac ymddygiad ar gyrion yr ysgol yn fater i'r pennaeth benderfynu arno.

## 10. I bwy mae'r polisi yn gymwys?

Mae'r polisi yn gymwys i bawb sy'n defnyddio safle neu gerbydau'r ysgol: holl staff yr ysgol, myfyrwyr ar leoliad, contractwyr, rhieni/gofalwyr, ymwelwyr, asiantaethau allanol, aelodau pwyllgorau megis llywodraethwyr, cymdeithas rieni, aelodau'r cyhoedd, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd.

## 11. Hyrwyddo'r polisi

- Bydd y polisi hwn yn cael ei restru ar wefan yr ysgol.
- Mae fersiwn addas i ddisgyblion o'r polisi ar gael.
- Mae cyflwyniadau yn cael eu gwneud yn ystod gwasanaethau'r ysgol ynghylch y polisi hwn ac am wasanaethau Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc Conwy a Sir Ddinbych.
- Bydd copïau llawn o'r polisi ar gael ar gais..

## 12. Darparu addysg camddefnyddio sylweddau

Nod ein haddysg camddefnyddio sylweddau yw grymuso disgyblion i wneud penderfyniadau cyfrifol a doeth am sylweddau a ddefnyddir a/neu a gamddefnyddir yn y gymdeithas. Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol a bod disgyblion yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teuluol. Bydd ein rhaglen yn un na fydd yn beirniadu nac yn stereoteipio nag yn achosi stigma. Ni ddylai daliadau ac agweddau personol staff neu asiantaethau allanol ddylanwadu ar ein rhaglenni addysg. Mae cynlluniau manylach ar gael yng nghynlluniau gwaith ABaCh a gwyddoniaeth.

## Tabl 1: Amlinelliad o ddarpariaeth addysg camddefnyddio sylweddau

(Gweler y cynlluniau ABaCh a Gwyddoniaeth am fanylion llawn)

## 12.1 Adnoddau a chyfranogiad asiantaethau/mentrau allanol

Yn achlysurol byddwn yn gweithio â mentrau priodol e.e. Yr heddlu er mwyn cyfrannu at agweddau penodol o'r rhaglen. Byddwn yn gofyn iddynt weithio o fewn paramedrau y polisi hwn ac i ategu darpariaeth ein cwricwlwm.

## 12.2 Datblygiad proffesiynol parhaus

- Bydd staff yn cael cyfle i fynychu cyrsiau ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau.
- Bydd staff yn eistedd mewn sesiynau fydd yn cael eu darparu gan asiantaethau allanol.

## 12.3 Rhieni/gofalwyr

- Rhannwyd gwybodaeth gyda rhieni drwy wefan yr ysgol.

## 13. Rheoli digwyddiadau o gamddefnyddi sylweddau

### 13.1 Mathau o ddigwyddiadau

Gall digwyddiadau ddigwydd yn annisgwyl, felly mae gennym ganllawiau manwl er mwyn cynorthwyo staff i gymryd y camau priodol. Gall digwyddiadau camddefnyddio sylweddau fod yn ymwneud ag aelodau staff, rhieni/gofalwyr neu oedolion eraill. Dyma enghreifftiau o ddigwyddiadau:

- Darganfod cyffuriau neu gyfarpar cyffuriau ar safle/tir yr ysgol;
- Amheuaeth, sibrydion neu honiad ynghylch gweithgareddau unigolyn;
- Datgelu camddefnyddio sylweddau;
- Defnyddio neu arwyddion a symptomau o gamddefnyddio sylweddau;
- Gwerth/delio neu feddu ar sylweddau.

Bydd pob achos yn cael ei drin o ddifri ac yn cael eu riportio i'r pennaeth. Mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch y camau gweithredu priodol, llesiant a diogelwch disgyblion a chymuned yr ysgol gyfan fydd yn cael y flaenoriaeth yn syth. Os bydd yn ymddangos bod rywun yn wael neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, bydd gweithdrefnau cymorth cyntaf yn cael eu dilyn. Os amheuir bod disgybl wedi, neu'n wynebu risg o ddioddef niwed difrifol, bydd gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn. Pan fo gweithgaredd troseddol yn cael ei ddatgelu neu'n cael ei amau, byddwn yn riportio'r mater i Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol (SCPO). I gael canllawiau manylach gweler **atodiad 1**.

### 13.2 Cyfranogiad yr Heddlu

Yn achos POB digwyddiad o gamddefnyddio sylweddau, diogelwch disgyblion a chymuned yr ysgol gyfan yw'r flaenoriaeth yn syth.

I ddechrau byddwn yn cynnwys yr SCPO ac nid yr heddlu brys ar gyfer pob digwyddiad o gamddefnyddio sylweddau.



Os bydd y sefyllfa yn achos brys, neu os na fydd yr SCPO ar gael, bydd galwad 999 yn cael ei rhoi er mwyn cael ymateb cyflymach. Er enghraifft, os bydd yn ymddangos bod rhywun yn wael o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau (e.e. Gorddos, camddefnyddio toddyddion), byddwn yn dilyn gweithdrefnau cymorth cyntaf ac yn ffonio 999 os bydd angen. NEU, er enghraifft pan fo rhiant/gofalwr ar fin gyrru eu plentyn adref ac yr amheuir nad ydynt mewn cyflwr i wneud hynny oherwydd eu bod dan ddylanwad, neu os bydd digwyddiad yn cynnwys cyffuriau anghyfreithlon.

I gael mwy o wybodaeth am gyfranogiad yr SCPO/Heddlu, gweler:

- Polisi Bîr Troseddu Ysgolion - Protocol ar gyfer Heddlu sy'n Cynorthwyo Ysgolion gyda Digwyddiadau o Droseddu ac Anrhefn. Dogfen Gyfeirio ar gyfer Staff Ysgolion (2012); a
- Canllawiau Cydweithio rhwng Ysgolion a Swyddogion Heddlu Cymunedol yr Ysgol. Rheoli Digwyddiadau Ymddygiadol mewn Ysgolion.

**Noder y bydd unrhyw weithred o gyflenwi, delio neu feddu ar gyffuriau Dosbarth A yn cael ei thrin fel trosedd. Ni fyddir yn gallu ymdrin â hynny o dan Bolisi Bîr Troseddu'r Ysgol.**

### **13.3 Gweithdrefnau ar gyfer rheoli digwyddiad sy'n cynnwys disgyblion (atodiad 1)**

Bydd staff ddaw'n ymwybodol o anawsterau a/neu ddigwyddiadau sy'n cynnwys disgyblion a sylweddau yn hysbysu'r **pennaeth a'r arweinydd camddefnyddio sylweddau**. Bydd yr ymateb yn dibynnu ar y faint a math y risg, a bydd rhai sefyllfaoedd yn golygu bod angen gweithredu ar unwaith, ac eraill yn golygu bod angen amser i asesu gwybodaeth, ceisio cyngor a chyfranogiad asiantaethau eraill. Ym mhob achos, diogelwch disgyblion gaiff y flaenoriaeth. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu oni bai fod yna bryderon o ran diogelu. Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a sut mae eu rheoli yn cael eu hamlinellu yn **atodiad 1**.

#### **13.3.1 Gweithdrefn ar gyfer delio â disgybl ar ôl digwyddiad**

Cydnabyddir y gall sylweddau arwain at newid ymddygiad. Gellir delio â'r ymddygiadau hyn drwy ddefnyddio'r Polisi Ymddygiad. Ni fydd y ffaith y gallai'r sylweddau fod wedi achosi'r ymddygiadau hyn yn cael eu hystyried fel ffactor lliniarol.

Nid ein rôl ni yr darparu gofal meddygol i rai sydd dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Os yw disgybl yn wynebu risg oherwydd effaith ar ei gyflwr meddyliol, byddir yn cysylltu â'r rhieni/gofalwyr a bydd yn ofynnol iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu plentyn. Os nad fydd hynny'n gweithio, byddir yn gofyn i berson cyswllt priodol mewn achos brys ddod i gynorthwyo. Neu, byddir yn galw ar y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r SCPO i gael cyngor.

Ni fydd disgybl yn cael ei ryddhau i gerdded, seiclo na dal bws gartref os bydd pryder am effaith feddyliol o ganlyniad i unrhyw sylwedd. Os bydd angen,

gellir defnyddio grym rhesymol (gweler polisi Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyrraeth Gorfforol y sir.)

Ein prif nod yw gwarchod diogelwch a llesiant y disgybl ac atal mwy o ddigwyddiadau. Mae gennym set gytunedig o sancsiynau a lefelau cymorth ar gyfer disgyblion sy'n ymwneud â digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau a byddwn yn gweithio'n agos â rhieni/gofalwyr, cydweithwyr yn yr ysgol a phartner asiantaethau megis yr YPSMS a'r Heddlu er mwyn darparu cymorth priodol. Gweler **atodiad 1**.

### **13.4 Gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiad sy'n cynnwys staff (atodiad 1)**

Ein prif gonsyrn yw llesiant y disgyblion yn ein gofal. Mae diogelu ein disgyblion yn bwysicach na gweithdrefnau disgyblu staff. Mae digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau (yn cynnwys cyffuriau, tybaco ac alcohol) sy'n cynnwys staff yn destun polisiâu AD cytunedig Sir Ddinbych, a gallent fod yn destun camau disgyblu.

### **13.5 Gweithdrefnau ar gyfer delio ag oedolion (nid staff) (atodiad 1)**

Pan amheuir bod rhiant/gofalwr neu ymwelydd â'r ysgol o dan ddylanwad sylwedd, byddir yn gofyn iddynt adael ar unwaith. Bydd eu diogelwch yn cael ei sicrhau, a bydd goruchwyliaeth yn cael ei roi os bydd angen. Mewn achosion pan ydym yn amau bod camddefnyddio sylweddau wedi digwydd (meddu ar, defnyddio, cyflenwi) byddwn yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a phan amheuir bod sylweddau anghyfreithlon yn cael eu defnyddio, byddir yn hysbysu'r SCPO neu'r Heddlu. Os bydd oedolyn yn ysmegu neu'n defnyddio e-sigarét ar safle ysgol, byddir yn gofyn iddynt ddiffodd y sigarét/peidio â defnyddio'r e-sigarét, neu adael y safle.

Pan amheuir bod rhieni/gofalwyr sy'n cyrraedd yr ysgol i godi disgyblion o dan ddylanwad neu ei bod yn ymddangos eu bod dan ddylanwad sylwedd, ni fydd y disgybl yn cael ei ryddhau i'w gofal (yn arbennig os byddan yn gyrru). Byddwn yn ceisio trefnu i berson cyswllt arall sydd wedi ei enwi i nôl y disgybl. Ond, os bydd y rhiant/gofalwr yn troi'n ymosodol, byddwn yn ffonio 999. Mae hynny yn unol â'n Polisi Diogelu.

Mae gweithredoedd sy'n golygu bod angen atgyfeirio at sefydliadau eraill yn cynnwys:

- Ymchwilio i weithgaredd troseddol, yn cynnwys chwilio unigolion neu eiddo personol (yr heddlu)
- Ac eithrio cymorth cyntaf ar unwaith, unrhyw achos brys meddygol y dylai personél meddygol priodol fod yn bresennol
- Mae asesu a rhoi cymorth a gwasanaethau i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu anhawster yn faterion i'r Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc
- Mae rhaglenni cwsela a thrin cyffuriau angen staff hyfforddedig, sydd fel arfer yn hygyrch drwy YPSMS, gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol eraill.

### **13.6 Gweithdrefn ar gyfer darganfod cyfarpar cyffuriau ar dir yr ysgol (atodiad 1)**

Os bydd nodwyddau, chwistrellau neu gyfarpar cyffuriau yn cael eu canfod ar safle'r ysgol:

1. Bydd yr arweinydd yn cael ei hysbysu.
2. Bydd y cyfarpar yn cael ei roi mewn bocs offer miniog (os bydd angen, gan ddefnyddio menig a gefel fach).
3. Byddir yn cysylltu â'r Gwasanaethau Amgylcheddol er mwyn gwagio'r bocs (pan mae'n llawn).
4. Byddwn yn hysbysu'r SCPO.
5. Bydd ffurflen cofnodi digwyddiad yn cael ei llenwi.
6. Mae'n ofynnol rhoi addysg diogelwch i'r disgyblion.

### **13.7 Gweithdrefn ar gyfer darganfod sylweddau ar dir yr ysgol neu atafaelu sylweddau**

Pan amheuir bod sylwedd wedi ei ddarganfod o fewn ffinia'r ysgol NEU os bydd aelod staff yn dymuno atafaelu sylwedd, byddwn yn dilyn Polisi Bîf Troseddu Ysgolion yr Heddlu:

1. Atafaelu'r sylwedd a'i roi mewn bag.
2. Ni fydd staff yn ceisio dadansoddi na blasu unrhyw sylwedd anhysbys o dan unrhyw amgylchiadau.
3. Pan amheuir bod cyffuriau cyfreithlon neu anghyfreithlon wedi cael eu darganfod, byddwn yn cysylltu â'r SCPO ar gyfer eu gwaredu ac i gael cyngor ynghylch camau ar gyfer y dyfodol. Os na fydd yr SCPO ar gael - byddir yn cysylltu â'r haeddu lleol cyn gynted â phosibl. Byddwn yn egluro'r sefyllfa ac yn gofyn am rif digwyddiad.
4. Byddwn yn sicrhau y bydd aelod arall o'r staff yn dyst i atafaelu'r sylwedd.
  - Alcohol - bydd yn cael ei dywallt a bydd y cynhwysydd yn cael ei daflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr fyddai efallai'n dymuno dod i nôl yr eitem).
  - Tybaco - bydd yn cael ei ddinistrio a'i daflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr fyddai efallai'n dymuno dod i nôl yr eitem).
  - E-sigarennau - bydd yn cael ei ddinistrio a'i daflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr fyddai efallai'n dymuno dod i nôl yr eitem).
  - Cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau sy'n ymddangos o'r newydd, sylweddau ansefydlog - byddwn yn storio'r sylwedd mewn lleoliad addas ym mhresenoldeb tyst tra'n disgwyl i'r heddlu gyrraedd.
5. Efallai y byddir yn defnyddio WEDINOS ([www.wedinos.org](http://www.wedinos.org)) er mwyn dadansoddi sylwedd anhysbys er mwyn darganfod bet yn union ydyw.
6. Bydd ffurflen cofnodi digwyddiad yn cael ei llenwi, yn egluro sut y cafwyd gwared â'r sylwedd, a bydd yn cynnwys llofnodion tystion, a llofnod yr Heddlu os bydd yr achos yn ymwneud â sylwedd anghyfreithlon.

### **13.8 Digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau sy'n digwydd y tu allan i oriau'r ysgol / yn y gymuned leol**

Nid oes gan yr ysgol unrhyw rôl mewn perthynas â delio â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â sylweddau y tu allan i oriau'r ysgol ac oddi ar y safle, ac eithrio:

- Ar deithiau ac ymweliadau ysgol, pan fo'r un disgwyliadau a gweithdrefnau yn gymwys i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ac ymarferol;

- Drwy drosglwyddo gwybodaeth i asiantaethau perthnasol pan fo diogelwch neu lesiant disgybl dan fygythiad;
- Er mwyn cynorthwyo'r Heddlu i atal defnyddio'r tir ar gyrion yr ysgol ar gyfer gwerthu cyffuriau;
- Pan fo camddefnyddio sylweddau gan oedolion (yn cynnwys alcohol) yn effeithio ar ddiogelwch disgybl;
- Os bydd digwyddiadau yn digwydd yn y gymuned leol byddwn yn ymgymryd â gwaith ychwanegol ag asiantaethau allanol priodol er mwyn atgyfnerthu negeseuon allweddol drwy ABaCh a gwasanaethau.

### 13.9 Chwilio

- Ni chaiff staff yr ysgol gyflawni chwiliadau personol ar ddisgyblion nac oedolion, eu dillad na'u heiddo personol heb ganiatâd, hyd yn oed os ydynt yn amau bod y person hwnnw yn meddu ar sylwedd neu nwyddau gwaharddedig.
- Gall y staff chwilio eiddo'r ysgol e.e. desgiau, loceri, er y dylid ceisio caniatâd ymlaen llaw. Gellir cynnal chwiliadau hyd yn oed os gwrthodir caniatâd.
- Gall staff yr ysgol ofyn i rywun droi ei bocedi allan, gwagio bagiau etc. Os bydd ymdrechion i berswadio rhywun yr amheuir ei fod yn camddefnyddio sylweddau i gydymffurfio â'r cais hwn yn methu, gall yr ysgol ddewis un o'r ddau opsiwn canlynol, neu'r ddau: yn achos disgybl, cysylltu â'r rhieni/gofalwyr a gofyn iddynt ddod i mewn i'r ysgol i chwilio'r disgybl a'i eiddo; NEU dilyn camau ffurfiol a chysylltu â'r SCPO.
- Ni chaiff staff gadw disgybl neu oedolyn heb eu caniatâd at ddiben chwilio.
- Bydd angen i ysgolion gydbwyso'r tebygolrwydd bod y drosedd wedi cael ei chyflawni yn erbyn y risg o amharu a breifatrwydd yr unigolyn heb achos cyfiawn.

#### 13.9.1 Cysylltu â rhieni/gofalwyr

Bydd ymdrech resymol yn cael ei gwneud i gysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn eu hysbysu y bydd chwiliad yn cael ei gynnal. Nid oes gan rhieni/gofalwyr hawl i atal chwiliad o'r fath nac i ohirio hynny'n ormodol. Mae'r grymoedd yr heddlu yn gyfyngedig o ran cadw person cyn ei chwilio. Os gellir cysylltu â rhieni/gofalwyr a'u bod yn gallu mynychu safle'r ysgol, byddir yn eu tywys i'r ystafell ble bydd y chwilio yn cael ei gynnal. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu am unrhyw ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â sylweddau, oni bai:

- Bod yna bryderon diogelu
- Byddai'n amharu ar ymchwiliad yr ysgol
- Byddai'n amharu ar ymchwiliad yr heddlu
- Galli arwain at fwy o niwed i'r disgybl am reswm arall.

Fel arfer byddir yn cysylltu â rhieni/gofalwyr yn uniongyrchol dros y ffôn pan brofwyd bod sylweddau wedi cael eu defnyddio. Os bydd hynny'n cael ei amau ond heb ei brofi, bydd protocol cytunedig yr heddlu yn cael ei roi ar waith.

#### 13.9.2 Cysylltu â'r Heddlu

Pan fo gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Heddlu, bydd cais i chwilio yn cael ei gyflwyno a byddir yn pwysleisio y dylid cysylltu â'r SCPO fydd hynny pryd

bynnag fo hynny'n bosibl (neu byddir yn gofyn am swyddogion dillad plaen neu swyddogion diogelu teuluoedd). Dim ond pan nad oes dewis arall, neu bod angen cynnal y chwiliad ar fyrder, y bydd swyddogion mewn lifrai yn mynychu'r ysgol.

Pan fyddant yn bresennol, bydd swyddogion yr heddlu yn cael ei briffio am natur y cyhuddiad a chyfrinachedd ffynhonnell y wybodaeth. Byddant yn cael eu tywys i'r ystafell y bydd y chwilio yn cael ei gynnal, os bydd y disgybl wedi ei gadw yno eisoes.

Pan na fydd y rheini/gofalwyr yn bresennol, bydd aelod o staff yr ysgol (staff dysgu neu fel arall) yn bresennol drwy gydol y chwiliad (**bydd angen i'r ysgol wneud asesiad risg**). Er y byddir yn caniatáu ychydig o gwestiynu mewn perthynas â'ch chwiliad, ni chaniateir unrhyw gyfweiliad ffurfiol oni bai fod y rhieni/gofalwyr yn bresennol. mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw gyfweiliad o'r fath yn cael ei gynnal ar safle'r ysgol.

Dylai staff fod ar eu gwylidwriaeth rhag i'r disgybl geisio dianc er mwyn gwaredu unrhyw gyffuriau, neu geisio drosglwyddo cyffuriau i unrhyw ddisgybl arall yn y dosbarth neu ar y ffordd i'r chwiliad.

### 13.10 Cyfweld ac ymchwiliadau

Byd mwy o ymchwiliadau yn cael eu cynnal ar ôl y digwyddiad; ac os yn briodol bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal er mwyn sefydlu'r ffeithiau, lefelau cyfranogiad ac a oedd unrhyw un arall yn rhan o'r digwyddiad. Efallai y bydd angen i ni hefyd drefnu cyfweiliadau â staff, disgyblion eraill er mwyn sefydlu a chadarnhau mwy o ffeithiau. Bydd gan rieni/gofalwyr hawl i gael mynediad at eu plentyn, gydag aelod staff yn bresennol bob amser. Gall yr SCPO gyfranogi mewn partneriaeth, neu ymchwiliadau'r heddlu pan fo'r digwyddiad yn ymwneud ag amheuaeth o ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon. Os bydd angen cynnwys yr Heddlu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod rhiant/gofalwr yn bresennol.

### 13.11 Cysylltiad â'r cyfryngau

Ni fydd staff yn riportio digwyddiadau a/neu faterion mewn perthynas â Chamddefnyddio Sylweddau i'r wasg leol na'r cyfryngau. Mae hynny yn achos o dorri cyfrinachedd a gallai arwain at gamau disgyblu. Bydd y Pennaeth, mwn ymgynghoriad â Swyddfa Wasg y sir a Llywodraethwyr, yn delio'n bersonol â phob mater sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau. Bydd holl ymholiadau'r cyfryngau yn cael eu cyfeirio i Swyddfa'r Wasg.

### 13.12 Rhannu gwybodaeth

Os oes gennym unrhyw wybodaeth mewn perthynas â sylweddau anghyfreithlon neu ffug, neu wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw ddefnyddio o sylweddau neu ddelio yn y gymuned, byddwn yn riportio hynny i'r heddlu, safonau masnachu neu'r YPSMS fel sy'n briodol.

### 13.13 Cofnodi digwyddiadau (atodiad 2)

Bydd cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer POB digwyddiad o gamddefnyddio sylweddau a digwyddiadau cysylltiedig gan ddefnyddio **atodiad 2**. Mae'n rhaid cadw cofnod o BOB cyfweiliad.

Nid oes yna ddyletswydd cyffredinol arnom o dan y gyfraith droseddol i ddatgelu gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau ac eithrio dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, pan fo trosedd yn cael ei chyflawni os bydd unigolyn yn caniatáu i safle gael ei ddefnyddio ar gyfer ysmegu cannabis neu opiwm, neu ar gyfer cynhyrchu, cyflenwi neu weinyddu cyffuriau a reolir, ac nad oes dim yn cael ei wneud i'w atal.

## 14. Cyfrinachedd a diogelu

Efallai y bydd angen rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Plant ar waith os bydd diogelwch neu lesiant plentyn (neu ddisgybl arall) o dan fygythiad. **Mae'n ddyletswydd ar y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n ymwneud â'r digwyddiad i gyfenwio gwybodaeth er mwyn diogelu "plentyn" drwy gydymffurfio â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.** Ni all athrawon na gweithwyr proffesiynol gynnig cyfrinachedd diamod i ddisgyblion mewn perthynas ag addysg a digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau, a dylai hynny fod yn glir o'r cychwyn.

Os bydd disgybl yn datgelu gwybodaeth sydd yn sensitif, nad yw'n gyffredinol hysbys a bod y disgybl yn gofyn am i'r wybodaeth honno beidio cael ei throsglwyddo, bydd y mater yn cael ei drafod gan y pennaeth/cydlynnydd diogelu. Bydd y cais yn cael ei anrhydeddu, ond bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri yn erbyn dymuniad disgybl pan fo:

- Pryder ynghylch diogelu
- 'Bywyd y person mewn perygl neu bod disgybl mewn perygl o achosi niwed difrifol i eraill.'
- Troseddau yn cael eu datgelu

Fodd bynnag, byddwn yn gwneud pob ymdrech i hysbysu'r disgybl yn gyntaf, ac yn egluro pam bod angen i hynny ddigwydd a sicrhau cytundeb gyda'r disgybl ynghylch y ffordd y mae'r ysgol yn dymuno defnyddio unrhyw wybodaeth sensitif.

Mewn perthynas ag addysg camddefnyddio sylweddau:

- Os bydd athro yn clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod gwrs sy'n awgrymu bod disgybl yn wynebu risg o niwed neu o achosi niwed difrifol i eraill, byddant yn hysbysu'r pennaeth/cydlynnydd diogelu.
- Bydd defnyddio rheolau sylfaenol clir yn y dosbarth yn creu ffiniau amlwg, yn cymhell disgyblion i beidio â rhannu gwybodaeth bersonol mewn dosbarth ac yn sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu.
- Bydd athrawon yn annog disgyblion i roi eu cwestiynau mewn bocs cwestiynau fydd yn rhoi 'amser meddwl' i staff yn eu hateb.
- Os bydd y cwestiwn o natur bersonol neu bod cwestiynau penodol am e.e. cyffuriau anghyfreithlon yn cael eu gofyn, bydd y disgyblion yn cael eu hannog i siarad â'u rhieni/gofalwyr a/neu asiantaethau cymorth priodol.

- Os bydd athro yn clywed neu'n gweld unrhyw beth yn ystod gwrs sy'n awgrymu bod gan ddisgybl wybodaeth am weithgareddau troseddol, byddant yn cysylltu â'r pennaeth a'r SCPO i ddechrau.

## **15. Gweithdrefn gwyno**

Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am ddigwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau at y pennaeth.

## **16. Monitro a gwerthuso**

- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd. Bydd hynny yn cael ei benderfynu gan Dîm Arwain Cynhwysiant Ysgolion Uwchradd/Arbennig Sir Ddinbych. Bydd grŵp priodol yn cael ei gynnull a byddir yn ymgynghori â phartneriaid perthnasol. Gallai'r rhai hynny gynnwys yr Heddlu, YPSMS, Iechyd, Addysg, Undebau Llafur, Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Cyhoeddus. Byddant yn asesu effaith y polisi ar yr ysgol, disgyblion a staff ac a oes angen ei ddiwygio neu beidio.
- Yr arweinydd camddefnyddio sylweddau, y cydlynnydd ABaCh a'r cydlynnydd gwyddoniaeth sy'n gyfrifol am adolygu addysg camddefnyddio sylweddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod rhaglenni yn ymatebol i anghenion disgyblion a bod amgylchedd dysgu cefnogol yn cael ei gynnal i bawb.
- Y pennaeth, yr arweinydd camddefnyddio sylweddau a'r corff llywodraethol sy'n gyfrifol am fonitro digwyddiadau (e.e. nifer, natur, deilliannau digwyddiadau a sawl atgyfeiriad a wnaethpwyd i asiantaethau allanol) ac am adolygu gweithdrefnau rheoli digwyddiadau.
- Bydd y pennaeth a'r arweinydd camddefnyddio sylweddau yn sicrhau bod y canfyddiadau o werthusiadau staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion yn cyfrannu at broses hunanwerthuso ein hysgol ac i'r broses adolygu polisi.

### **Atodiad 1 - Siart Llif Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau**

### **Atodiad 2 - Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau**

### **Atodiad 3 - Llythyrau Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau**

### **Atodiad 4 - Ffurflen Atgyfeirio ac Offeryn Sgrinio Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc**

# **Atodiad 1**

## **Digwyddiad o Gamddefnyddio Sylweddau**

## **Siart Llif a Sancsiynau**



# CRYNODEB RHEOLI DIGWYDDIADAU CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU (GWANWYN 2016)

## Person penodedig sy'n gyfrifol am ddiwyddiadau camddefnyddio sylweddau

### Diogelwch, Diogelu a Throseddau

1. Diogelwch disgyblion a chymuned yr ysgol gyfan yw'r flaenoriaeth yn syth.
2. Os bydd yn ymddangos bod unrhyw un yn wael o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, dylid dilyn gweithdrefnau cymorth cyntaf.
3. Os amheuir bod disgybl wedi dioddef, neu ei fod yn wynebu risg o ddioddef niwed difrifol, dylid dilyn gweithdrefnau diogelu.
4. Pan fo gweithgaredd troseddol yn cael ei ddatgelu neu ei amau, riportiwch y mater i'r SCPO.

### Gwaredu sylweddau a atafaelwyd

1. Sicrhewch y bydd aelod arall o'r staff yn dyst i atafaelu'r sylwedd.
2. Rhowch y sylwedd mewn bag.
3. Ni ddylai staff geisio dadansoddi na blasu unrhyw sylwedd anhysbys o dan unrhyw amgylchiadau.
  - Alcohol - bydd yn cael ei dywallt a bydd y cynhwysydd yn cael ei daflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr fyddai efallai'n dymuno dod i nôl yr eitem).
  - Tybaco - bydd yn cael ei ddinistrio a'i daflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr fyddai efallai'n dymuno dod i nôl yr eitem).
  - E-sigarennau - bydd yn cael ei ddinistrio a'i daflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr fyddai efallai'n dymuno dod i nôl yr eitem).
  - Cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau sy'n ymddangos o'r newydd, sylweddau ansefydlog - byddwn yn storio'r sylwedd mewn lleoliad addas ym mhresenoldeb tyst.

Byddwn yn cysylltu â'r SCPO ar gyfer eu gwaredu ac i gael cyngor ynghylch camau ar gyfer y dyfodol. Os na fydd yr SCPO ar gael - byddir yn cysylltu â'r heddlu lleol. Byddwn yn egluro'r sefyllfa ac yn cofnodi rhif y digwyddiad.
4. Gellir anfon y sylwedd at [wedinos.org](http://www.wedinos.org) ar gyfer ei ddadansoddi.
5. Bydd ffurflen cofnodi digwyddiad yn cael ei llenwi, yn egluro sut y cafwyd gward â'r sylwedd, a bydd yn cynnwys llofnodion tystion.
6. Atgyfnerthu negeseuon addysgol priodol os bydd angen.

### Rhifau Cyswllt Defnyddiol

**Gweithiwr Cymdeithasol mewn Addysg**

**Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol (SCPO).**  
Heledd Wynne-Evans

**Nyrs ysgol**  
Debra Davies

### Rheoli Gwastraff

Ar gyfer casglu offer miniog o focsys melyn  
01824 712102

**Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc (YPSMS) Conwy a Sir Ddinbych**  
Cyngor/cefnogaeth cyffredinol ac ymyriadau camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc  
01745 360084

**Dim Smygu Cymru**  
Gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu  
0800 085 2219  
<http://www.helpmequit.wales/>

### Dan 24/7

Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol  
0808 808 2234  
[www.dan247.org.uk](http://www.dan247.org.uk)

